



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2019 Rhif 1378 (Cy. 244)**

**2019 No. 1378 (W. 244)**

**IECHYD PLANHIGION,  
CYMRU**

**PLANT HEALTH, WALES**

**HADAU, CYMRU**

**SEEDS, WALES**

Rheoliadau Iechyd Planhigion etc.  
(Ffioedd Amrywiol) (Cymru)  
(Diwygio) 2019

The Plant Health etc.  
(Miscellaneous Fees) (Wales)  
(Amendment) Regulations 2019

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Gorchymyn Iechyd Planhigion (Tystysgrifau Allforio) (Cymru) 2006 ("Gorchymyn 2006") a Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018 ("Rheoliadau 2018").

These Regulations amend the Plant Health (Export Certification) (Wales) Order 2006 (the "2006 Order") and the Plant Health etc. (Fees) (Wales) Regulations 2018 (the "2018 Regulations").

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Gorchymyn 2006 i ddarparu ar gyfer cynyddu'r ffioedd ar gyfer gwasanaethau mewn cysylltiad â cheisiadau am dystysgrifau ffytoiechydol (gan gynnwys tystysgrifau ffytoiechydol ar gyfer ailallforio) a gwasanaethau cyn-allforio cysylltiedig, ac i gynyddu'r uchafswm ar gyfer gwasanaethau y mae'r gyfradd gonsesiynol i allforwyr bach yn gymwys iddynt, o £250 i £750.

These Regulations amend the 2006 Order to provide for increases in the fees for services in respect of applications for phytosanitary certificates (including phytosanitary certificates for re-export) and related pre-export services, and to increase the maximum amount for services to which the concessionary rate for small exporters applies, from £250 to £750.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2018, sy'n pennu ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru mewn perthynas â gwasanaethau iechyd planhigion ac ardystio tatws hadyd a phlanhigion ffrwythau a deunydd lluosogi planhigion ffrwythau, fel a ganlyn.

These Regulations amend the 2018 Regulations, which specify fees payable to the Welsh Ministers in relation to plant health services and the certification of seed potatoes and fruit plants and fruit plant propagating material, as follows.

Mae rheoliad 3(2) yn diwygio rheoliad 3 o Reoliadau 2018 i ddarparu'r ffioedd sy'n daladwy ar gyfer tystysgrifau ffytoiechydol (gan gynnwys ffioedd ar gyfer llwythi cymysg) ac ar gyfer profi samplau.

Regulation 3(2) amends regulation 3 of the 2018 Regulations to provide the fees payable for phytosanitary certificates (including fees for mixed consignments) and for sample testing.

Mae rheoliad 3(3) yn diwygio rheoliad 4 o Reoliadau 2018 i ddarparu ar gyfer ffi is ar gyfer awdurdodiad pasbort planhigion.

Regulation 3(3) amends regulation 4 of the 2018 Regulations to provide for a reduced fee for a plant passport authorisation.

Mae rheoliad 3(6) yn diwygio rheoliad 9(2) o Reoliadau 2018 i ddarparu ar gyfer ffi uwch ar gyfer ardystio planhigion ffrwythau a'u deunydd lluosogi.

Mae rheoliad 3(7) yn amnewid Atodlen 1 i Reoliadau 2018, sy'n nodi ffioedd arolygu mewnforio sy'n daladwy gan fewnforiwr llwyth o drydedd wlad ar gyfer archwiliadau iechyd planhigion mewn cysylltiad â phlanhigion penodol a chynhyrchion planhigion penodol.

Mae rheoliad 3(8) yn amnewid Atodlen 2 i Reoliadau 2018, sy'n nodi ffioedd gostyngol ar gyfer planhigion penodol a chynhyrchion planhigion penodol sy'n ddarostyngedig i lefelau is o archwiliadau iechyd planhigion y cytunwyd arnynt o dan y weithdrefn yn Erthyglau 13a(2) a 18(2) o Gyfarwydddeb y Cyngor 2000/29/EC ynghylch mesurau diogelu rhag cyflwyno i'r Gymuned organebau sy'n niweidiol i blanhigion neu i gynhyrchion planhigion a rhag eu lledaeniad o fewn y Gymuned (OJ Rhif 169, 10.7.2000, t.1). Mae'r rheoliad hwn yn rhoi effaith i'r hysbysiad diweddaraf a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd am y lefelau is o archwiliadau iechyd planhigion sy'n gymwys i blanhigion penodol ac i gynhyrchion planhigion penodol (a gyhoeddwyd ar 10 Rhagfyr 2018 ac a ddiwygiwyd ar 15 Ebrill 2019).

Mae rheoliad 3(10) yn amnewid Atodlen 4 i Reoliadau 2018 sy'n nodi'r ffioedd ar gyfer trwyddedau iechyd planhigion ac mae'n cynnwys newid i'r ffi ar gyfer monitro a gydymffurfir â thelerau ac amodau'r drwydded sy'n cael ei chynyddu dros gyfnodau ar wahân.

Mae rheoliad 3(11) yn amnewid Atodlen 5 i Reoliadau 2018 sy'n nodi ffioedd ar gyfer samplu a phrofi pridd ac ardystio tatws hadyd gan gynnwys darparu labelau.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Regulation 3(6) amends regulation 9(2) of the 2018 Regulations to provide for an increased fee for certification of fruit plants and its propagating material.

Regulation 3(7) substitutes Schedule 1 to the 2018 Regulations, which sets out import inspection fees payable by the importer of a third country consignment for plant health checks in respect of certain plants and plant products.

Regulation 3(8) substitutes Schedule 2 to the 2018 Regulations, which sets out reduced rate fees for certain plants and plant products which are subject to reduced levels of plant health checks agreed under the procedure in Articles 13a(2) and 18(2) of Council Directive 2000/29/EC on protective measures against the introduction into the Community of organisms harmful to plants or plant products and against their spread within the Community (OJ No 169, 10.7.2000, p 1). This regulation gives effect to the latest notification published by the European Commission of the reduced plant health checks which are applicable to certain plants and plant products (published on 10 December 2018 and revised on 15 April 2019).

Regulation 3(10) substitutes Schedule 4 of the 2018 Regulations which sets out the fees for plant health licences and includes a change to the fee for monitoring compliance with licence terms and conditions which is being increased over separate periods.

Regulation 3(11) substitutes Schedule 5 of the 2018 Regulations which sets out fees for soil sampling and testing and certification of seed potatoes including the provision of labels.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

**2019 Rhif 1378 (Cy. 244)**

**IECHYD PLANHIGION,  
CYMRU**

**HADAU, CYMRU**

Rheoliadau Iechyd Planhigion etc.  
(Ffioedd Amrywiol) (Cymru)  
(Diwygio) 2019

*Gwnaed* 22 Hydref 2019

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol  
Cymru* 24 Hydref 2019

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru, gyda chydsyniad y Trysorlys, yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir—

- (a) mewn perthynas â rheoliad 1, gan y darpariaethau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (b) ac (c);
- (b) mewn perthynas â rheoliad 2, gan adrannau 3(1) a 4A o Ddeddf Iechyd Planhigion 1967(1);
- (c) mewn perthynas â rheoliad 3, gan adran 56(1) a (2) o Ddeddf Cyllid 1973(2) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(3).

**2019 No. 1378 (W. 244)**

**PLANT HEALTH, WALES**

**SEEDS, WALES**

The Plant Health etc.  
(Miscellaneous Fees) (Wales)  
(Amendment) Regulations 2019

*Made* 22 October 2019

*Laid before the National Assembly for Wales*  
24 October 2019

*Coming into force in accordance with  
regulation 1(2)*

The Welsh Ministers, with the consent of the Treasury, make these Regulations in exercise of the powers conferred by—

- (a) in relation to regulation 1, the provisions mentioned in paragraphs (b) and (c);
- (b) in relation to regulation 2, sections 3(1) and 4A of the Plant Health Act 1967(1);
- (c) in relation to regulation 3, section 56(1) and (2) of the Finance Act 1973(2) and now vested in them(3).

---

(1) 1967 p. 8; diwygiwyd adran 3(1) gan baragraff 8(2)(a) a (b) o Atodlen 4 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68) ac O.S. 2011/1043. Mewnosodwyd adran 4A gan adran 3 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1986 (p. 49). Mae'r pwerau a roddir gan adrannau 3 a 4A yn cael eu rhoi i awdurdod cymwys ("competent authority"). Diffinnir "competent authority" yn adran 1(2). Diwygiwyd adran 1(2) gan baragraff 43 o Atodlen 2 i O.S. 2013/755 (Cy. 90). Mae adran 1(2), fel y'i diwygiwyd, yn darparu mai'r awdurdod cymwys ar gyfer Cymru yw Gweinidogion Cymru.

(2) 1973 p. 51; diwygiwyd is-adran (1) gan O.S. 2011/1043.

(3) Yn rhinwedd adran 59(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

---

(1) 1967 c. 8; section 3(1) was amended by paragraph 8(2)(a) and (b) of Schedule 4 to the European Communities Act 1972 (c. 68) and S.I. 2011/1043. Section 4A was inserted by section 3 of the Agriculture Act 1986 (c. 49). The powers conferred by sections 3 and 4A are conferred on a "competent authority", which is defined in section 1(2). Section 1(2) was amended by paragraph 43 of Schedule 2 to S.I. 2013/755 (W. 90). Section 1(2), as amended, provides that the competent authority for Wales is the Welsh Ministers.

(2) 1973 c. 51; subsection (1) was amended by S.I. 2011/1043.

(3) By virtue of section 59(5) of the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

## Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd Amrywiol) (Cymru) (Diwygio) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym 21 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad y'u gosodir.

(3) Maent yn gymwys o ran Cymru.

## Diwygio Gorchymyn Iechyd Planhigion (Tystysgrifau Allforio) (Cymru) 2006

2.—(1) Mae Gorchymyn Iechyd Planhigion (Tystysgrifau Allforio) (Cymru) 2006(1) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 5—

(a) ym mharagraff (2)—

(i) yn is-baragraff (a)—

(aa) yn lle “£250” rhodder “£750”;

(bb) yn lle'r geiriau o “yng ngholofn 3” hyd at y diwedd rhodder “yng ngholofn 2 y tabl hwnnw”;

(ii) yn is-baragraff (b), yn lle'r geiriau o “yng ngholofn 4” hyd at y diwedd rhodder “yng ngholofn 3 y tabl hwnnw”;

(b) ym mharagraff (3), yn lle “yng ngholofnau 3 a 4” rhodder “yng ngholofnau 2 a 3”;

(c) ym mharagraff (4)—

(i) yn is-baragraff (a)—

(aa) yn lle “£250” rhodder “£750”;

(bb) yn lle “£7.43” rhodder “£7.88”;

(ii) yn is-baragraff (b), yn lle “£14.86” rhodder “£15.76”.

(3) Yn lle Atodlen 3, rhodder—

## Title, commencement and application

1.—(1) The title of these Regulations is the Plant Health etc. (Miscellaneous Fees) (Wales) (Amendment) Regulations 2019.

(2) They come into force 21 days after the day on which they are laid.

(3) They apply in relation to Wales.

## Amendment of the Plant Health (Export Certification) (Wales) Order 2006

2.—(1) The Plant Health (Export Certification) (Wales) Order 2006(1) is amended as follows.

(2) In article 5—

(a) in paragraph (2)—

(i) in sub-paragraph (a)—

(aa) for “£250” substitute “£750”;

(bb) for the words from “column 3” to the end substitute “column 2 of that table”;

(ii) in sub-paragraph (b), for the words from “column 4” to the end substitute “column 3 of that table”;

(b) in paragraph (3), for “columns 3 and 4” substitute “columns 2 and 3”;

(c) in paragraph (4)—

(i) in sub-paragraph (a)—

(aa) for “£250” substitute “£750”;

(bb) for “£7.43” substitute “£7.88”;

(ii) in sub-paragraph (b), for “£14.86” substitute “£15.76”.

(3) For Schedule 3 substitute—

(1) O.S. 2006/1701 (Cy. 163), a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/1658 (Cy. 156), O.S. 2014/1759 (Cy. 174), O.S. 2016/1084 (Cy. 259) ac O.S. 2018/772 (Cy. 156).

(1) S.I. 2006/1701 (W. 163), amended by S.I. 2013/1658 (W. 156), S.I. 2014/1759 (W. 174), S.I. 2016/1084 (W. 259) and S.I. 2018/772 (W. 156).

“ATODLEN 3<sup>Erthygl 5(1)</sup>

Ffioedd gwasanaethau tystysgrifau  
allforio a gwasanaethau cyn-allforio

(1) <i>Gwasanaeth</i>	(2) <i>Ffi (£)</i>	(3) <i>Ffi (£)</i>
Arolygiad o lwyth	31.90 am bob cyfnod o 15 munud (neu ran o'r cyfnod hwnnw), yn ddarostyngedig i isafswm ffi o 63.80	63.80 am bob cyfnod o 15 munud (neu ran o'r cyfnod hwnnw), yn ddarostyngedig i isafswm ffi o 127.60
Archwiliad o arolygiad a grawn gynhelir yn unol ag erthygl 3(3)	13.20 am bob cyfnod o 15 munud (neu ran o'r cyfnod hwnnw), yn ddarostyngedig i isafswm ffi o 26.40	26.40 am bob cyfnod o 15 munud (neu ran o'r cyfnod hwnnw), yn ddarostyngedig i isafswm ffi o 52.80
Archwiliad mewn labordy	16.78 am bob sampl a brofir	33.56 am bob sampl a brofir
Dyrodidi tystysgrif	12.76 am bob tystysgrif	25.52 am bob tystysgrif
Diwygio tystysgrif archiad yr allforiwr	7.88 am bob tystysgrif	15.76 am bob tystysgrif”.

**Diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018**

3.—(1) Mae Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3—

(a) ym mharagraff (1)—

- (i) yn lle “sydd ar ffurf” rhodder “i'r graddau y mae'n cynnwys”;
- (ii) ar y diwedd mewnosoder “neu unrhyw beiriannau neu gerbydau sydd wedi eu gweithredu at ddibenion amaethyddol neu goedwigaeth”;

(1) O.S. 2018/1179 (Cy. 238).

“SCHEDULE 3<sup>Article 5(1)</sup>

Fees for export certification  
services and pre-export services

(1) <i>Service</i>	(2) <i>Fee (£)</i>	(3) <i>Fee (£)</i>
Inspection of consignment	31.90 for each 15 minutes (or part thereof), subject to a minimum fee of 63.80	63.80 for each 15 minutes (or part thereof), subject to a minimum fee of 127.60
Audit of a grain inspection carried out pursuant to article 3(3)	13.20 for each 15 minutes (or part thereof), subject to a minimum fee of 26.40	26.40 for each 15 minutes (or part thereof), subject to a minimum fee of 52.80
Laboratory examination	16.78 per sample tested	33.56 per sample tested
Issue of certificate	12.76 per certificate	25.52 per certificate
Amendment of a certificate at the request of the exporter	7.88 per certificate	15.76 per certificate”.

**Amendment of the Plant Health etc. (Fees) (Wales) Regulations 2018**

3.—(1) The Plant Health etc. (Fees) (Wales) Regulations 2018(1) are amended as follows.

(2) In regulation 3—

(a) in paragraph (1)—

- (i) for “which consists of” substitute “insofar as it includes”;
- (ii) at the end insert “or any machinery or vehicles which have been operated for agricultural or forestry purposes”;

(1) S.I. 2018/1179 (W. 238).

(b) ym mharagraff (2)—

- (i) yn is-baragraff (a), yn lle “£9.71” rhodder “£10.51”;
- (ii) yn lle is-baragraffau (b) ac (c), rhodder—

“(b) yn achos—

(i) llwyth o flodau wedi eu torri a restrir yn Atodlen 2 sy’n cynnwys—

(aa) un lot o flodau wedi eu torri, y ffi a bennir mewn cysylltiad â’r blodau wedi eu torri hynny yng ngholofn 3 o’r tabl yn Atodlen 2;

(bb) dwy lot neu ragor o flodau wedi eu torri, ffi sy’n gyfwerth â swm yr uchaf o’r ffioedd a bennir mewn cysylltiad â’r lotiau hynny yng ngholofn 3 o’r tabl hwnnw;

(ii) llwyth o ffrwythau neu lysiau a restrir yn Atodlen 2 sy’n cynnwys—

(aa) un lot o ffrwythau neu lysiau, y ffi a bennir mewn cysylltiad â’r ffrwythau neu’r llysiau hynny yng ngholofn 3 o’r tabl yn Atodlen 2;

(bb) dwy lot neu ragor o ffrwythau neu lysiau, ffi sy’n gyfwerth â swm yr uchaf o’r ffioedd a bennir mewn cysylltiad â’r lotiau hynny yng ngholofn 3 o’r tabl hwnnw;

(c) yn achos llwyth—

(i) sy’n cynnwys canghennau wedi eu torri o *Phoenix* spp. sy’n tarddu o Costa Rica ac nad yw’n cynnwys unrhyw ganghennau wedi eu torri eraill y mae’r rheoliad hwn yn gymwys iddynt, y ffi a bennir mewn cysylltiad â’r canghennau wedi eu torri hynny yng ngholofn 3 o’r tabl yn Atodlen 2;

(ii) yn achos unrhyw lwyth arall y mae’r rheoliad hwn yn gymwys iddo—

(b) in paragraph (2)—

(i) in sub-paragraph (a), for “£9.71” substitute “£10.51”;

(ii) for sub-paragraphs (b) and (c) substitute—

“(b) in the case of—

(i) a Schedule 2 cut flower consignment which includes—

(aa) one lot of cut flowers, the fee specified in respect of those cut flowers in column 3 of the table in Schedule 2;

(bb) two or more lots of cut flowers, a fee equal to the amount of the highest of the fees specified in respect of those lots in column 3 of that table;

(ii) a Schedule 2 fruit or vegetable consignment which includes—

(aa) one lot of fruit or vegetables, the fee specified in respect of those fruit or vegetables in column 3 of the table in Schedule 2;

(bb) two or more lots of fruit or vegetables, a fee equal to the amount of the highest of the fees specified in respect of those lots in column 3 of that table;

(c) in the case of a consignment which—

(i) includes cut branches of *Phoenix* spp. originating in Costa Rica and no other cut branches to which this regulation applies, the fee specified in respect of those cut branches in column 3 of the table in Schedule 2;

(ii) in the case of any other consignment to which this regulation applies—



- (aa) pan fo'r llwyth yn cynnwys unrhyw beiriannau neu gerbydau sydd wedi eu gweithredu at ddibenion amaethyddol neu goedwigaeth, ffi o £5.98;
- (bb) pan fo'r llwyth yn cynnwys planhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 1 o'r tabl yn Atodlen 1, y ffi neu'r ffioedd a bennir mewn cysylltiad â'r planhigion hynny, y cynhyrchion planhigion hynny neu'r gwrthrychau eraill hynny yng ngholofn 2 o'r tabl hwnnw;"
- (iii) yn is-baragraff (d), yn lle "£157.08" rhodder "£147.35";
- (c) ym mharagraff (3), ar ôl y diffiniad o "pla planhigion a reolir", mewnosoder—
- “(aa) mae i “Ewrop” yr ystyr a roddir yn erthygl 2(1) o Orchymyn 2018;
- (ab) ystyr “lot” yw un uned neu ragor o un nwydd, y gellir ei adnabod drwy gydrywiaeth ei gyfansoddiad a'i darddiad, sy'n ffurfio rhan o lwyth;
- (ac) ystyr “llwyth o flodau wedi eu torri a restrir yn Atodlen 2” yw llwyth sy'n cynnwys blodau wedi eu torri o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 1 o'r tabl yn Atodlen 2 sy'n tarddu o wlad a bennir yng ngholofn 2 o'r tabl hwnnw ac nad yw'n cynnwys unrhyw flodau wedi eu torri eraill y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddynt;
- (ad) ystyr “llwyth o ffrwythau neu lysiau a restrir yn Atodlen 2” yw llwyth sy'n cynnwys ffrwythau neu lysiau o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 1 o'r tabl yn Atodlen 2 sy'n tarddu o wlad a bennir yng ngholofn 2 o'r tabl hwnnw ac nad yw'n cynnwys unrhyw
- (aa) where the consignment includes any machinery or vehicles that have been operated for agricultural or forestry purposes, a fee of £5.98;
- (bb) where the consignment includes plants, plant products or other objects of a description specified in column 1 of the table in Schedule 1, the fee or fees specified in respect of those plants, plant products or other objects in column 2 of that table;”;
- (iii) in sub-paragraph (d), for “£157.08” substitute “£147.35”;
- (c) in paragraph (3), after the definition of “controlled plant pest”, insert—
- “(aa) “Europe” has the meaning given in article 2(1) of the 2018 Order;
- (ab) “lot” means one or more units of a single commodity, identifiable by its homogeneity of composition and origin, which form part of a consignment;
- (ac) “Schedule 2 cut flower consignment” means a consignment which includes cut flowers of a description specified in column 1 of the table in Schedule 2 originating in a country specified in column 2 of that table and does not include any other cut flowers to which this regulation applies;
- (ad) “Schedule 2 fruit or vegetable consignment” means a consignment which includes fruit or vegetables of a description specified in column 1 of the table in Schedule 2 originating in a country specified in column 2 of that table and does not

ffrwythau na llyisiau eraill y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddynt;”.

include any other fruit or vegetables to which this regulation applies;”.

(3) Yn rheoliad 4—

(a) ym mharagraff (2), yn lle “ffioedd a bennir yn y tabl yn Atodlen 3” rhodder “ffi a bennir ym mharagraff (3)”;

(b) yn lle paragraff (3) rhodder—

“(3) Mae ffi o £61.58 yn daladwy am bob cyfnod o 15 munud (neu ran o'r cyfnod hwnnw) a dreulir yn cynnal yr arolygiad ac unrhyw weithgareddau cysylltiedig yn y fangre berthnasol, yn ddarostyngedig i isafswm ffi o £123.16.”;

(c) ym mharagraff (4), yn lle “£18.78” rhodder “£20.66”.

(4) Yn rheoliad 6(1), yn lle “£60.40” rhodder “£70.83”.

(5) Yn rheoliad 8—

(a) ym mharagraff (4), yn lle “£14.76” rhodder “£15.76”;

(b) ar ôl paragraff (4) mewnosoder—

“(4A) Pan fo person yn cyflwyno cais ar gyfer darparu labelau argraffedig, mae'r ffi ychwanegol a ganlyn yn daladwy—

(a) yn achos cais a gyflwynir ar-lein, £11.45;

(b) yn achos cais a gyflwynir ar bapur, £15.61.”.

(6) Yn lle rheoliad 9(2) rhodder—

“(2) Mae ffi o £26.00 am bob cyfnod o 15 munud (neu ran o'r cyfnod hwnnw) yn daladwy mewn cysylltiad â'r amser a dreulir yn cynnal archwiliad swyddogol ac unrhyw weithgareddau cysylltiedig yn y fangre berthnasol at ddibenion ardystio'r deunydd, yn ddarostyngedig i isafswm ffi o £52.00.”.

(7) Yn lle Atodlen 1 rhodder—

(3) In regulation 4—

(a) in paragraph (2), for “fees specified in the table in Schedule 3 are” substitute “fee specified in paragraph (3) is”;

(b) for paragraph (3) substitute—

“(3) A fee of £61.58 is payable for each 15 minutes (or part thereof) spent in carrying out the inspection and any associated activities at the relevant premises, subject to a minimum fee of £123.16.”;

(c) in paragraph (4), for “£18.78” substitute “£20.66”.

(4) In regulation 6(1) for “£60.40” substitute “£70.83”.

(5) In regulation 8—

(a) in paragraph (4), for “£14.76” substitute “£15.76”;

(b) after paragraph (4) insert—

“(4A) Where a person submits an application for the provision of printed labels, the following additional fee is payable—

(a) in the case of an application submitted online, £11.45;

(b) in the case of an application submitted in paper form, £15.61.”.

(6) For regulation 9(2) substitute—

“(2) A fee of £26.00 per each 15 minutes (or part thereof) is payable in respect of time spent in carrying out an official examination and any associated activities at the relevant premises for the purposes of certifying the material, subject to a minimum fee of £52.00.”.

(7) For Schedule 1 substitute—



Ffioedd arolygu mewnforio

<i>Colofn 1</i> <i>Planhigyn, cynnyrch planhigion neu wrthrych arall</i>	<i>Colofn 2</i> <i>Ffi (£)</i>
Torion, egin blanhigion (ac eithrio deunydd lluosogi coedwigaeth), planhigion ifanc mefus neu lysiau	173.91
Llwyni, coed (ac eithrio coed Nadolig wedi eu torri), planhigion meithrinfa prennaidd eraill gan gynnwys deunydd lluosogi coedwigaeth (ac eithrio had)	182.38
Bylbiau, cormau, rhisomau, cloron, a fwriedir ar gyfer eu plannu (ac eithrio cloron tatws)	205.04
Hadau, meithriniad meinwe	128.13
Planhigion eraill a fwriedir ar gyfer eu plannu, nas pennir yn unman arall yn y tabl hwn	182.38
Blodau wedi eu torri	42.75
Canghennau gyda deiliant, rhannau o goed conwydd (ac eithrio coed Nadolig wedi eu torri)	33.99
Coed Nadolig wedi eu torri	119.64
Dail planhigion, megis perlysiau, sbeisys a llyisiau deiliog	71.68
Ffrwythau, llyisiau (ac eithrio llyisiau deiliog)	53.10

Import inspection fees

<i>Column 1</i> <i>Plant, plant product or other object</i>	<i>Column 2</i> <i>Fee (£)</i>
Cuttings, seedlings (except forestry reproductive material), young plants of strawberries or of vegetables	173.91
Shrubs, trees (other than cut Christmas trees), other woody nursery plants including forest reproductive material (other than seed)	182.38
Bulbs, corms, rhizomes, tubers, intended for planting (other than tubers of potatoes)	205.04
Seeds, tissue cultures	128.13
Other plants intended for planting, not specified elsewhere in this table	182.38
Cut flowers	42.75
Branches with foliage, parts of conifers (other than cut Christmas trees)	33.99
Cut Christmas trees	119.64
Leaves of plants, such as herbs, spices and leafy vegetables	71.68
Fruits, vegetables (other than leafy vegetables)	53.10

Cloron tatws	156.69
Pridd a chyfrwng tyfu, rhisgl	119.64
Grawn	142.98
Planhigion eraill neu gynhyrchion planhigion eraill nas pennir yn unman arall yn y tabl hwn, ac eithrio coed fforestydd	22.73”.

(8) Yn lle Atodlen 2 rhodder—

Tubers of potatoes	156.69
Soil and growing medium, bark	119.64
Grain	142.98
Other plants or plant products not specified elsewhere in this table, except forest trees	22.73”.

(8) For Schedule 2 substitute—

“ATODLEN 2 Rheoliad 3(2)(c)

Ffioedd arolygu mewnforio:  
cyfraddau gostyngol

<i>Colofn 1</i> <i>Genws</i>	<i>Colofn 2</i> <i>Gwlad tarddiad</i>	<i>Colofn 3</i> <i>Ffi (£)</i>
<b>Blodau wedi eu torri</b>		
<i>Aster</i>	Zimbabwe	32.06
<i>Dianthus</i>	Colombia	1.28
	Ecuador	6.41
	Kenya	2.14
	Twrci	6.41
<i>Rosa</i>	Colombia	1.28
	Ecuador	0.43
	Ethiopia	2.14
	Kenya	4.28
	Tanzania	21.38
	Zambia	4.28
<b>Canghennau gyda Deiliant</b>		
<i>Phoenix</i>	Costa Rica	17.00
<b>Ffrwythau</b>		
<i>Actinidia</i>	Unrhyw drydedd wlad	2.66
<i>Carica papaya</i>	Unrhyw drydedd wlad	2.66

“SCHEDULE 2 Regulation 3(2)(c)

Import inspection fees: reduced rates

<i>Column 1</i> <i>Genus</i>	<i>Column 2</i> <i>County of origin</i>	<i>Column 3</i> <i>Fee (£)</i>
<b>Cut flowers</b>		
<i>Aster</i>	Zimbabwe	32.06
<i>Dianthus</i>	Colombia	1.28
	Ecuador	6.41
	Kenya	2.14
	Turkey	6.41
<i>Rosa</i>	Colombia	1.28
	Ecuador	0.43
	Ethiopia	2.14
	Kenya	4.28
	Tanzania	21.38
	Zambia	4.28
<b>Branches with Foliage</b>		
<i>Phoenix</i>	Costa Rica	17.00
<b>Fruit</b>		
<i>Actinidia</i>	Any third country	2.66
<i>Carica papaya</i>	Any third country	2.66

<i>Citrus</i>	Yr Aifft	39.83
	Moroco	1.59
	Periw	5.31
	Twrci	1.59
	UDA	13.28
<i>Citrus limon a citrus aurantifolia</i>	Israel	13.28
<i>Cydonia</i>	Unrhyw drydedd wlad yn Ewrop	2.66
<i>Fragaria</i>	Unrhyw drydedd wlad	2.66
<i>Malus</i>	Ariannin	18.59
	Brasil	26.55
	Chile	2.66
	Unrhyw drydedd wlad yn Ewrop	2.66
	Seland Newydd	5.31
	De Affrica	2.66
<i>Mangifera</i>	Brasil	26.55
<i>Passiflora</i>	Colombia	3.72
	Kenya	13.28
	De Affrica	18.59
	Fiet-nam	13.28
	Zimbabwe	26.55
<i>Persea americana</i>	Unrhyw drydedd wlad	2.66
<i>Prunus</i>	Ariannin	39.83
	Chile	5.31
	Unrhyw drydedd wlad yn Ewrop	2.66
	Moroco	26.55
	Twrci	18.59
	UDA	26.55

<i>Citrus</i>	Egypt	39.83
	Morocco	1.59
	Peru	5.31
	Turkey	1.59
	USA	13.28
<i>Citrus lemon and citrus aurantifolia</i>	Israel	13.28
<i>Cydonia</i>	Any third country in Europe	2.66
<i>Fragaria</i>	Any third country	2.66
<i>Malus</i>	Argentina	18.59
	Brazil	26.55
	Chile	2.66
	Any third country in Europe	2.66
	New Zealand	5.31
	South Africa	2.66
<i>Mangifera</i>	Brazil	26.55
<i>Passiflora</i>	Colombia	3.72
	Kenya	13.28
	South Africa	18.59
	Vietnam	13.28
	Zimbabwe	26.55
<i>Persea americana</i>	Any third country	2.66
<i>Prunus</i>	Argentina	39.83
	Chile	5.31
	Any third country in Europe	2.66
	Morocco	26.55
	Turkey	18.59
	USA	26.55

<i>Prunus eithrio prunus persica</i>	De Affrica	2.66
<i>Pyrus</i>	Ariannin	7.97
	Chile	7.97
	Tsieina	26.55
	Unrhyw drydedd wlad yn Ewrop	2.66
	De Affrica	5.31
<i>Ribes</i>	Unrhyw drydedd wlad yn Ewrop	2.66
<i>Rubus</i>	Unrhyw drydedd wlad	2.66
<i>Vaccinium</i>	Ariannin	13.28
	Unrhyw drydedd wlad yn Ewrop	2.66
<i>Vitis</i>	Unrhyw drydedd wlad	2.66
<b>Llysiau</b>		
<i>Solanum lycopersicon</i>	Yr Ynysoedd Dedwydd	2.66
	Moroco	2.66
<i>Solanum melongena</i>	Twrci	13.28 <sup>7</sup> .

(9) Hepgorer Atodlen 3.

(10) Yn lle Atodlen 4 rhodder—

<i>Prunus other than prunus persica</i>	South Africa	2.66
<i>Pyrus</i>	Argentina	7.97
	Chile	7.97
	China	26.55
	Any third country in Europe	2.66
	South Africa	5.31
<i>Ribes</i>	Any third country in Europe	2.66
<i>Rubus</i>	Any third country	2.66
<i>Vaccinium</i>	Argentina	13.28
	Any third country in Europe	2.66
<i>Vitis</i>	Any third country	2.66
<b>Vegetables</b>		
<i>Solanum lycopersicon</i>	Canary Islands	2.66
	Morocco	2.66
<i>Solanum melongena</i>	Turkey	13.28 <sup>7</sup> .

(9) Omit Schedule 3.

(10) For Schedule 4 substitute—

“ATODLEN 4 Rheoliad 5(1)

Ffioedd trwydded iechyd  
planhigion

Yn yr Atodlen hon—

ystyr “cyfnod 1” yw’r cyfnod sy’n dod i ben ar 31 Mawrth 2020;

ystyr “cyfnod 2” yw’r cyfnod sy’n dechrau ar 1 Ebrill 2020 ac sy’n dod i ben ar 30 Medi 2020.

<i>Colofn 1</i> <i>Y math o gais neu arolygiad</i>	<i>Colofn 2</i> <i>Dyddiad y cais</i>	<i>Colofn 3</i> <i>Ffi (£)</i>
Cais am drwydded at ddibenion gwyddonol neu dreialu, ac eithrio— — trwydded mewn cysylltiad â dadansoddi pridd neu gyfrwng tyfu arall — trwydded at ddibenion gwyddonol neu dreialu sy’n cwmpasu 5 neu ragor o eitemau		995.36
Cais am drwydded at ddibenion gwyddonol neu dreialu sy’n cwmpasu 5 neu ragor o eitemau		995.36, plws 52.45 am bob eitem dros 5

“SCHEDULE 4 Regulation 5(1)

Plant health licence fees

In this Schedule—

“period 1” means the period ending on 31 March 2020;

“period 2” means the period beginning on 1 April 2020 and ending on 30 September 2020.

<i>Column 1</i> <i>Type of application or inspection</i>	<i>Column 2</i> <i>Date of application</i>	<i>Column 3</i> <i>Fee (£)</i>
Application for a licence for scientific or trial purposes, other than— — a licence in respect of the analysis of soil or other growing medium — a licence for scientific or trial purposes covering 5 or more items		995.36
Application for a licence for scientific or trial purposes covering 5 or more items		995.36, plus 52.45 per item in excess of 5 items

Cais am drwydded mewn cysylltiad â dadansoddi pridd neu gyfrwng tyfu arall, ac eithrio trwydded mewn cysylltiad â dadansoddi pridd neu gyfrwng tyfu arall sy'n cwmpasu 5 neu ragor o eitemau		745.41
Cais am drwydded mewn cysylltiad â dadansoddi pridd neu gyfrwng tyfu arall sy'n cwmpasu 5 neu ragor o eitemau		745.41, plws 52.45 am bob eitem dros 5
Cais i amrywio trwydded gyda newidiadau y mae asesiad gwyddonol neu dechnegol yn ofynnol ar eu cyfer		380.25
Cais am unrhyw drwydded arall		42.50
Dyroddi llythyr awdurdodi blynyddol		42.50

Application for a licence in respect of the analysis of soil or other growing medium, other than a licence in respect of the analysis of soil or other growing medium covering 5 or more items		745.41
Application for a licence in respect of the analysis of soil or other growing medium covering 5 or more items		745.41, plus 52.45 per item in excess of 5 items
Application for a variation of a licence with changes requiring scientific or technical assessment		380.25
Application for any other licence		42.50
Issue of an annual letter of authority		42.50



Monitro a gydymffurfir ag amodau a thelerau trwydded	Yn achos monitro a wneir yng nghyfnod 1	69.75 am bob cyfnod o 15 munud (neu ran o'r cyfnod hwnnw), yn ddarostyngedig i isafswm ffi o 139.50
	Yn achos monitro a wneir yng nghyfnod 2	81.25 am bob cyfnod o 15 munud (neu ran o'r cyfnod hwnnw), yn ddarostyngedig i isafswm ffi o 162.50
	Yn achos monitro a wneir ar 1 Hydref 2020 neu ar ôl hynny	92.67 am bob cyfnod o 15 munud (neu ran o'r cyfnod hwnnw), yn ddarostyngedig i isafswm ffi o 185.34".

(11) Yn lle Atodlen 5 rhodder—

Monitoring compliance with licence terms and conditions	In the case of monitoring undertaken during period 1	69.75 for each 15 minutes (or part thereof), subject to a minimum fee of 139.50
	In the case of monitoring undertaken during period 2	81.25 for each 15 minutes (or part thereof), subject to a minimum fee of 162.50
	In the case of monitoring undertaken on or after 1 October 2020	92.67 for each 15 minutes (or part thereof), subject to a minimum fee of 185.34".

(11) For Schedule 5 substitute—

“ATODLEN 5 Rheoliad 8(1)

Tatws hadyd: ffioedd

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>	<i>Colofn 3</i>
<i>Gweithgaredd</i>	<i>Ffi (£)</i>	<i>Isafswm ffi (£)</i>
<b>Samplu a phrofi pridd ar gyfer Llyngyr Tatws</b>		
Samplu a phrofi pridd at ddibenion paragraff 4, 7 neu 9 o Atodlen 1 i Reoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2016(1)	24.75 am bob hectar (neu ran ohono) sy'n cael ei samplu a'i brofi	

“SCHEDULE 5 Regulation 8(1)

Seed potatoes: fees

<i>Column 1</i>	<i>Column 2</i>	<i>Column 3</i>
<i>Activity</i>	<i>Fee (£)</i>	<i>Minimum fee (£)</i>
<b>Soil sampling and testing for Potato Cyst Nematode</b>		
Soil sampling and testing for the purposes of paragraph 4, 7 or 9 of Schedule 1 to the Seed Potatoes (Wales) Regulations 2016(1)	24.75 for each hectare (or part thereof) sampled and tested	

(1) O.S. 2016/106 (Cy. 52).

(1) S.I. 2016/106 (W. 52).

<b>Arolygu cynydu sy'n tyfu</b>		
Ardystio yn datws hadyd cyn-sylfaenol: Gradd PBTC yr Undeb	30.39 am bob cyfnod o 15 munud (neu ran o'r cyfnod hwnnw)	60.78
Ardystio yn datws hadyd cyn-sylfaenol: Gradd PB yr Undeb	12.16 am bob 0.1 hectar (neu ran ohono) a arolygir	60.75
Ardystio yn datws hadyd sylfaenol: Gradd S yr Undeb	10.57 am bob 0.1 hectar (neu ran ohono) a arolygir	105.70
Ardystio yn datws hadyd sylfaenol: Gradd SE yr Undeb	10.57 am bob 0.1 hectar (neu ran ohono) a arolygir	105.70
Ardystio yn datws hadyd sylfaenol: Gradd E yr Undeb	10.33 am bob 0.1 hectar (neu ran ohono) a arolygir	103.30
Ardystio yn datws hadyd ardystiedig: Gradd A neu B yr Undeb	9.39 am bob 0.1 hectar (neu ran ohono) a arolygir	93.90
<b>Arolygu cloron a gynaeafwyd</b>		
Arolygu	40.55 am bob cyfnod o 15 munud (neu ran o'r cyfnod hwnnw)	81.10
<b>Darparu labelau a seliau mewn cysylltiad â cheisiadau</b>		
Labelau argraffedig ar gyfer bagiau sy'n dal 50 kg o datws hadyd neu lai	0.05 am bob label	

<b>Inspection of growing crop</b>		
Certification as pre-basic seed potatoes: Union grade PBTC	30.39 for each 15 minutes (or part thereof)	60.78
Certification as pre-basic seed potatoes: Union grade PB	12.16 per each 0.1 hectare (or part thereof) inspected	60.75
Certification as basic seed potatoes: Union grade S	10.57 per each 0.1 hectare (or part thereof) inspected	105.70
Certification as basic seed potatoes: Union grade SE	10.57 per each 0.1 hectare (or part thereof) inspected	105.70
Certification as basic seed potatoes: Union grade E	10.33 per each 0.1 hectare (or part thereof) inspected	103.30
Certification as certified seed potatoes: Union grade A or B	9.39 per each 0.1 hectare (or part thereof) inspected	93.90
<b>Inspection of harvested tubers</b>		
Inspection	40.55 for each 15 minutes (or part thereof)	81.10
<b>Provision of labels and seals in respect of application</b>		
Printed labels for bags holding 50 kgs of seed potatoes or less	0.05 per label	

Labelau a seliau argraffedig ar gyfer bagiau sy'n dal mwy na 50 kg o datws hadyd	0.11 am bob label (gan gynnwys sêl)	
Labelau a seliau gwag	0.16 am bob label (gan gynnwys sêl)".	

Printed labels and seals for bags holding more than 50 kgs of seed potatoes	0.11 per label (including seal)	
Blank labels and seals	0.16 per label (including seal)".	

*Lesley Griffiths*

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig,  
un o Weinidogion Cymru  
22 Hydref 2019

©©Hawlfraint y Goron 2019

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Minister for Environment, Energy and Rural Affairs,  
one of the Welsh Ministers  
22 October 2019

© Crown copyright 2019

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.





£6.90

W201910231019 10/2019

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2019/1378>

ISBN 978-0-348-20473-5



9 780348 204735